

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gofynion ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn darparu crynodeb byr o'r ddyletswydd, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolen allweddol:

Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005c/ode-of-practicecy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o'r Ddeddf ar 5 Hydref 2015. Mae mewn grym ar hyn o bryd.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r safonau ansawdd a chasglu'r wybodaeth ynghylch perfformiad a nodir yn y cod ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 145 o'r Ddeddf.

Mae'n rhaid casglu'r wybodaeth hon o 6 Ebrill 2016 a'i dychwelyd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru. Bydd y datganiad cyntaf ym mis Mai 2017 ar gyfer blwyddyn adrodd 2016-17.

Beth mae'n ei wneud?

Ni fydd y mesurau perfformiad cenedlaethol presennol a gesglir yn y ffurflenni data, Rheoli Perfformiad 1 a Rheoli Perfformiad 2 (PM1 a PM2) yn cael eu casglu mwyach y tu hwnt i 2015-16.

Bydd y mesurau perfformiad a nodir yn y cod ymarfer yn disodli'r holl fesurau perfformiad presennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac mae'n rhaid iddynt gael eu casglu pan fydd y Deddf yn dod i rym.

Mae'r mesurau perfformiad yn cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol:

- Bydd mesurau ansoddol yn nodi profiad person o wasanaethau cymdeithasol.
- Mae mesurau meintiol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch gweithgarwch a'r galw, a byddant yn darparu'r cyd-destun lleol ac yn nodi cydbwysedd y gofal a ddarperir ar gyfer pobl mewn ardal.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i danategu prosesau cynllunio strategol, sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon, ac annog arferion arloesol o ran datblygu gwasanaethau a thargedu adnoddau a gweithgarwch gwella.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymharu a meincnodi eu perfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill a dysgu a gwella.

Sut y mae hyn yn cydweddu â'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd?

Caiff safonau ansawdd eu datgan mewn perthynas â'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r safonau ansawdd a nodir yn y cod ymarfer.

Mae'r safonau ansawdd yn disgrifio'r gweithgareddau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cyflawni mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cod ymarfer yn nodi mesurau perfformiad sy'n mesur a yw safon ansawdd yn cael ei

chyrraedd ac yn mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud o ran cyflawni'r dyletswyddau dan y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.

Sut y mae hyn yn cydweddu â llesiant?

Bydd mesurau llesiant yn cael eu mesur trwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd hyn yn mesur llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Bydd llawer o wasanaethau'n cyfrannu at gynorthwyo pobl i gyflawni llesiant.

I danategu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, mae'n rhaid mesur atebolrwydd gwasanaethau. Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y byddwn yn mesur y cyfraniad y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn ei wneud o ran cynorthwyo pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth i gyflawni llesiant.

Rhagor o wybodaeth ynghylch mesur perfformiad

Canllawiau technegol

Mae canllawiau technegol yn cael eu drafftio i ddarparu manylion technegol a mesurau perfformiad a nodir yn y cod ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd y canllawiau hyn yn sicrhau bod mesurau perfformiad yn cael eu casglu'n gyson ledled Cymru a byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2015.

Fe sefydlwyd y Rhwydwaith Gwybodaeth Dechnegol Gwasanaethau Cymdeithasol i gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch cynhyrchu'r canllawiau technegol hyn ac ynghylch yr holl ddata arall ar wasanaethau cymdeithasol. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Gwybodaeth ansoddol am berfformiad

Mae'n rhaid casglu gwybodaeth ansoddol gan blant, oedolion a gofalwyr, gan ddefnyddio unrhyw ddulliau o blith y canlynol: holiadur ar bapur i'w gwblhau gan yr unigolion eu hunain, holiadur ar-lein neu drwy gyfweiliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu offer i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth gasglu'r data ansoddol. Bydd yr offer hyn yn sicrhau bod data ansoddol yn cael ei gasglu mewn modd cyson ledled Cymru.

Mesur canlyniadau unigol

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 4 (diwallu anghenion) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i adnabod a monitro'r cynnydd tuag at gyflawni a chynnal pob canlyniad personol a nodir yn eu cynllun gofal a chymorth. Mae'n rhaid i ganlyniadau unigol pobl gael eu mesur, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio hyn i asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r cod ymarfer yn disgrifio proses ar gyfer mesur canlyniadau unigol.

Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain prosiect i fesur y cynnydd a wnaed gan bobl tuag at gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Y pum awdurdod lleol peilot yw: Sir Ddinbych, Caerffili, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Fynwy. Bydd yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd ar ei chanfyddiadau erbyn mis Rhagfyr 2015.

Rhagor o wybodaeth

Mae ystod o adnoddau ar gael i roi cymorth i awdurdodau lleol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=c>
[y](#)

Grŵp technegol fframwaith mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol – Adroddiad terfynol

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/141013p/erformanceen.pdf>

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814n/ofcy.pdf>

Gwefan Fy Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol:

<http://mylocalhealthandsocialcare.gov.wales/#/c>
[y](#)

Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>